OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 No. 1268

# Rheoliadau Labelu Bwyd (Datgan Alergenau) (Cymru) 2008

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Labelu Bwyd (Datgan Alergenau) (Cymru) 2008 a deuant i rym ar 31 Mai 2008.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygio Rheoliadau Labelu Bwyd 1996

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Labelu Bwyd 1996(**1**) wedi eu diwygio i'r graddau y maent yn gymwys o ran Cymru yn unol â pharagraffau (2) i (7).

(2) Yn rheoliad 2(1) (dehongli), yn y diffiniad o "Directive 2000/13" yn lle'r geiriau "Commission Directive 2005/26/EC" hyd at y diwedd, rhodder "Commission Directive 2007/68/EC amending Annex IIIa to Directive 2000/13/EC of the European Parliament and of the Council as regards certain food ingredients(**2**);".

(3) Yn rheoliad 13(8)(c)—

(a) hepgorer y geiriau "paragraphs 1 to 11 of"; a

(b) hepgorer y darn sy'n dechrau gyda'r geiriau "other than" ac yn gorffen gyda'r geiriau "that allergenic ingredient".

(4) Yn rheoliad 34B(1)—

(a) yn lle'r geiriau "paragraphs (2) and (3)" rhodder "paragraff (2)"; a

(b) hepgorer y geiriau "paragraphs 1 to 11 of".

(5) Yn rheoliad 34B(2)(b)—

(a) hepgorer y geiriau "subject to paragraph (3) of this regulation,"; a

(b) hepgorer y geiriau "paragraphs 1 to 11 of".

(6) Yn rheoliad 50 (darpariaeth drosiannol), ar ôl paragraff (14) mewnosoder y canlynol—

"(15) In any proceedings for an offence under regulation 44(1)(a) it is a defence to prove that—

(a) the food concerned was sold before 31st May 2009 or marked or labelled before that date; and

(b) the matters constituting the alleged offence would not have constituted an offence under these Regulations if the amendments made by regulation 2 of the Food Labelling (Declaration of Allergens) (Wales) Regulations 2008(**3**) had not been in operation when the food was sold.".

(**1**) O.S. 1996/1499, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan O.S. 2007/3379 (Cy.301). Mewnosodwyd rheoliad 34B ac Atodlen AA1 gysylltiedig gan O.S. 2004/3022 (Cy.261). Diwygiwyd rheoliad 34B gan O.S. 2005/2835 (Cy.200); diwygiwyd Atodlen AA1 gan O.S. 2007/3379 (Cy.301). Mewnosodwyd paragraff (13) o reoliad 50 gan O.S. 2005/1309 (W.91), a pharagraff (14) o'r rheoliad hwnnw gan O.S. 2007/3379 (Cy.301).

(**2**) OJ Rhif L310, 28.11.207, t.11.

(**3**) O.S. 2008/1268 (Cy.128).

(7) Yn lle cynnwys Atodlen AA1 (cynhwysion alergenig) rhodder cynnwys yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

**Dirymu**

**3.** Mae'r Rheoliadau neu ddarpariaethau a ganlyn wedi eu dirymu—

(a) Rheoliad 34B(3) o Reoliadau Labelu Bwyd 1996 ac Atodlen 2A iddynt;

(b) Yr Atodlen i Reoliadau Labelu Bwyd (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2004(**4**);

(c) Rheoliadau Labelu bwyd (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2005(**5**);

(ch) Rheoliadau Labelu Bwyd (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) 2005(**6**);

(d) Rheoliadau Labelu Bwyd (Datgan Alergenau) (Cymru) 2007(**7**).

*Gwenda Thomas*
O dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru.

6 Mai 2008

(**4**) O.S. 2004/3022 (Cy.261).
(**5**) O.S. 2005/2835 (Cy.200).
(**6**) O.S. 2005/3626 (Cy.241).
(**7**) O.S. 2007/3379 (Cy.301).